**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**a gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth, 14eg o Dachwedd, 2017 am 7:30 y.h**

**Yn Bresennol**
Cynghorwyr – Lisbeth James (LJ), John Owen (JO), Griffith Jones (GJ), William Jones (WJ) a'r Cyng. Aled Jones (AJ)

1. **Hysbysiadau y Cadeirydd** - Croesawyd pawb a oedd yn bresennol.

2. **Ymddiheuriadau –** Sianelen Pleming, Olwen Roberts, Sara Williams, Gwilym Williams, Emlyn Hughes,

3. **Datgan Diddordeb –** Neb

4. **Diweddariadau asedau –** Cafwyd adroddiadau ar gyflwr gwahanol asedau'r Cyngor. Nododd WJ fod angen peth gwaith ar fainc Pistyll a Than y Bwlch. *Bu GJ mor garedig ac ymrwymo i'w hatgywierio a rhoi hylif cadw coed arnynt*.

5. **Cofnodion**

5.1 Cynigodd JO fod cofnodion y 10 Hydref, 2017 yn gywir. Eiliodd GJ, fe'u mabwysiadwyd.

5.2 Materion yn codi –

5.2.1 **Dŵr yr Eifl** - Nododd y Clerc iddo dderbyn llythyr dyddiedig y 23 o Hydref gan Uwch Swyddog Tramwy yn y Cyngor Sir. Nodir ynddo iddo siarad â'r Swyddog perthnasol beth amser yn ôl a esboniodd nad oedd wedi cael cyfle i edrych i mewn i'r mater gan fod raid iddo flaenoriaethu ceisio atal llifogydd sydd yn cael effaith ar dai cyn delio â'r achos hwn. Adroddodd GJ ei fod ef, JO a D E Williams wedi ymweld a safle ffynhonnell y broblem ac wedi cytuno ar fodd i liniaru'r gor-lifo. Derbynwyd dyfynris o £ 100+Taw gan D E Williams. Roedd y Cyngor yn hapus fod y swm yma yn bodloni gofynion eitem 10.3 ac 11.1g. yn y Rheoliadau Ariannol. Nododd y Clerc y gallai fod yna risg o weithredu fel hyn o ran y dŵr a fyddai wedi'i ail gyfeirio yn achosi problem mewn man arall. Cynigiodd JO i'r Cyngor symud ymlaen a phenodi D E Williams i ymgymryd a'r gwaith mewn golwg. Eiliodd GJ. Cytunodd pawb. *Y Clerc i awdurdodi D E Williams i symud ymlaen*.

5.2.2 **Llidiart y Llwybr Cyhoeddus** – Nododd y Clerc iddo dderbyn llythyr gan Uwch Swyddog Tramwy o'r Cyngor Sir yn esbonio nad ydynt yn bwriadu amnewid y giât ar y llwybr ger Capel Isaf gan fod giât arall rhwng y cae amaethyddol a'r lôn bost. **MATER WEDI CAU**

5.2.3 **Mynwent Pistyll –** Nododd y Clerc iddo dderbyn neges e-bost gan Y Parch Richard Wood, Ficer Gweinidogaeth Bro Madryn. Yn ei neges esboniodd eu bod eisiau atgyweirio'r difrod i'r wal y maent yn gyfrifol amdani ers rhyw ddwy flynedd.

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Yn anffodus nid oes ganddynt yr arian i ymgymryd a'r gwaith. Aeth ymlaen i ddweud fod yna gyfle, oherwydd bwriad y Cyngor i atgyweirio eu rhan hwy, y gellir cyd-weithio a chwblhau'r gwaith ar y cyd trwy ddefnyddio'r 'run contractwr a rhannu'r gôst. Efallai y byddai ganddynt yr arian i wneud felly.
Gofynodd os y byddai'r Cyngor yn fodlon gadael iddo wybod sut y maent yn bwriadu ymgymryd â'r gwaith, pwy fyddai'n gwneud y gwaith ac os y byddai cydweithio yn dderbyniol. Cynigiodd WJ fod y Clerc yn ymateb trwy nodi manylion y person sy'n ymgymryd â'r atgyweirio a bod y gwaith ar wal y Cyngor Cymuned wedi'i gomisiynu eisioes. Eiliodd GJ. Cytunodd pawb. *Y Clerc i weithredu*.

5.2.4 **Maes Parcio wrth fynedfa Nant Gwrtheyrn –** Nododd y Clerc iddo dderbyn cadarnhad fod Adran Wastraff y Cyngor Sir yn gwagio'r buniau gwastraff ar ddydd Mawrth yn wythnosol. Y *Clerc i barhau i ymchwilio archif y Cyngor Cymuned o ran hyd a lled eu cyfrifoldeb am ran isa'r maes parcio.*

6. **Canolfan Llithfaen –** Dyma allbwn ymarfer yr Aelodau i wirio'r wirio'r brydles/is-brydles ddrafft:

| **Enw** | **Sylwadau/Cwestiynau** o ran buddion y Cyngor Cymuned | ***Gweithred i'r Clerc*** |
|---|---|---|
| Sianelen Pleming | 'Yr unig beth o safbwynt y Ganolfan dwi'n meddwl ydi sicrhau bod y Cyngor a Tŷ'r ysgol yn deall ei gilydd parthed pwy biau y gysgodfan, hawliau parcio a.y.y.b.' | *Y Clerc i holi Adran Gyfreithiol y Cyngor Sir am ddiweddaraiad ynglyn a'r cytundeb gyda Tŷ'r Ysgol.* |
| Lisbeth James | √ | |
| William Jones | Dim ar sail beth y mae wedi'i weld. | |
| Sara Williams | 'wedi darllen y prydlesi drafft a nid oes gen i sylwadau arnynt' | |
| John Owen | Dim | |
| Griff Jones | Dim – heblaw am bryder ymarferol ynglyn a'r maes parcio. | *Y mater i'w drafod gan Bwyllgor y Ganolfan.* |

Dyma sylwadau cwestiynau'r Clerc yn deillio o'r 'run ymarfer o ran y brydles ddrafft:

| **Eitem rhif** | **Sylwadau/Cwestiynau o ran buddion y Cyngor Cymuned** | Perthnasol Is brydles | ***Gweithred i'r Clerc*** |
|---|---|---|---|
| Penawd 2 | Cyngor Cymuned **Pistyll** dim Llithfaen | √ | *Hysbysu'r Cyngor Sir* |
| 1.9<br>Atodlen 2: 2.3.2 | A fydd adolygiadau o'r rhent o gwbwl? Cynigiodd JO i'r Cyngor Cymuned bennu rhent o £1 y flwyddyn ar Bwyllgor y Ganolfan. Eiliodd GJ a chytunodd pawb.<br>A fyddai modd i Bwyllgor y Ganolfan dalu'r rhent neu yrru unrhyw rybudd/wybodaeth y gofynir amdano yn y Brydles/Isbrydles yn uniongyrchol i'r Cyngor Sir gyda chopi i'r Cyngor Cymuned? | √ | *Holi'r Cyngor Sir.<br>Nodi rhent o £1 y flwyddyn ar eitem 1.9 yn yr Is-brydles.<br><br>Y Clerc i holi'r Cyngor Sir.* |

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

| | | | |
|---|---|---|---|
| 3.8.1.3<br>3.1.7 | A yw'r prisiad/arolwg o'r Ganolfan a ddarparwyd ar gyfer Pwyllgor y Ganolfan yn ddigonol i ddiwallu unrhyw angen a fyddai gan y Cyngor Cymuned/Pwyllgor yn y dyfodol? | √ | *Cynigiodd LJ fod y gwaith papur angenrheidiol yn eu lle a'u bod yn diwallu'r angen ac yn dderbyniol. Eiliodd GJ a chytunodd pawb.* |
| 3.26 | A oes hawl gan y Cyngor Cymuned i ddychwelyd y Ganolfan i ddwylo'r rhydd-ddeiliad cyn diwedd y 99 mlynedd? Os yw hynny yn wir a yw'n berthnasol pwy bynnag yw'r rhydd-ddeiliad? | √ | *Cynigiodd LJ i'r Clerc i ofyn am eglurhäd gan Gyfreithiwr y Cyngor Cymuned. Eiliodd GJ a chytunodd pawb.* |
| | Sut y bydd y Cyngor Cymuned yn sicrhau fod Pwyllgor y Ganolfan yn gweithredu ar amodau'r Is-brydles? | √ | Cynigiodd JO y dylai fod yn amodol fod o leiaf un cynrychiolydd ffurfiol o'r Cyngor Cymuned ar Bwyllgor y Ganolfan. Eiliodd GJ a chytunodd pawb. *Y Clerc i ymgynghori gyda'r Cyngor Sir ynglyn a'r angen i gael cymal i'r perwyl hwnnw ar yr Is brydles.* |
| | A oes modd sicrhau cynllun sy'n nodi lleoliad draeniau a phibellau cyflenwi dwr? | √ | Cynigiodd GJ y dylid gofyn i'r Cyngor Sir am gynllun. Eiliodd LJ a chytunodd pawb. *Y Clerc i ofyn.* |
| | A os modd cael manylion unrhyw hawliau mynediad a hawddfreintiau? | √ | *Y Clerc i holi'r Cyngor Sir.* |
| **Local Searches?** | | | |

Derbyniodd y Cyngor yn unfrydol nad oeddynt yn dal y Clerc yn gyfrifol pe na bai wedi codi pob sylw/cwestiwn perthnasol.

7. **Ceisiadau Cynllunio –**

7.1 C17/1010/43/LL: Pistyll Farm Caravan Park, Pistyll, Pwllheli, LL53 6LR: Diwygio amodau ar ganiatad C11/0661/43/LL – Amod 2 er adeiladu unedau gwyliau ar rhan y fferm yn unol a cynlluniau diwygiedig ac amod 21 i amrywio deunyddiau wyneb allanol yr unedau ar safle'r fferm. Cynigiodd WJ nad oes gan y Cyngor wrthwynebiad i'r cais. Eiliodd JO a chytunodd pawb. *Y Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.*

7.2 C17/1073/43/TR: Tir ger / Land by Ciliau Isaf, Pistyll, Pwllheli, LL536LY: Cais ol weithredol i ail leoli llinell drydan. Cynigiodd GJ nad oes gan y Cyngor wrthwynebiad i'r cais. Eiliodd JO a chytunodd pawb. *Y Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir.*

8. **Materion Lleol eraill a godwyd o flaen llaw –**

8.1 **Gor-yrru trwy Llithfaen** – Nododd y Clerc fod Geraint Williams wedi gyrru tecst yn nodi ei fod bellach yn gweithio yn ardal Blaenau Ffestiniog. Addawodd hysbysu'r swyddogion perthnasol ym Mhwllheli o'r cynnydd/manylion. Cynigiodd LJ fod y Cyngor yn ceisio darganfod pwy yw'r person cyswllt newydd yng Ngorsaf yr Heddlu ym Mhwllheli fel y gellir dilyn y mater i fyny ymhellach. *Y Clerc i weithredu.*

8.2 **Y Lôn o flaen Tŷ Nest –** Adroddwyd fod cyfarfod safle wedi'i gynnal. Nodwyd mai'r cam cyntaf fyddai i'r preswyliwr/perchennog ymgymryd â gwelliannau i'r 'steps' o'r tu

allan i'r tŷ.

Yna gellir cysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglyn a'r gwaith sy'n angenrheidiol yn y man y maent hwy yn gyfrifol amdano. *Y Clerc i hysbysu OR*. Diolchodd y Cadeirydd i GJ a JO am eu gwaith.

8.3 **Carreg Filltir Pistyll –** I'w thrafod yng n ghyfarfod Rhagfyr.

8.4 **Tir Comin –** Y Clerc i barhau a'i ymchwil i ddyletswyddau'r Cyngor Cymuned yng nghyd destun y Tir Comin yn lleol.

8.5 **Iechyd a Diogelwch -** Cwblhawyd asesiad wirio Iechyd a Diogelwch Un Llais.
*Y Clerc i ddarparu cynllun gweithredu ar gyfer y materio sydd angen sylw.*

9. **Gohebiaeth -**

9.1 **Adolygiad o'r Sector Cynghorau Tref a Chymuned -** Tynodd y Clerc sylw'r Cyngor at ymgynghoriad y panel annibynnol a benodwyd gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r sector Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru.

9.2 **Llythyr Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru –** Adroddodd y Clerc i'r Cyngor dderbyn llythyr gan 'Mynediad Ceffylau Gogledd Cymru'. Ynddo maent yn gofyn os yw cyflwr ffyrdd annosbarthedig, cilffyrdd â chyfyngiadau a llwybrau ceffylau yn y plwyf yn eu gwneud yn addas i'w pwrpas neu a oes rhwystrau neu y meant wedi'u cau mewn unrhyw ffordd. Cyngor Cymuned yn gefnogol i greu cysylltiadau i wella'r cyfleusterau hyn.

9.4 Cyflwynyd pecyn o ohebiaeth amrywiol pellach i'r Aelodau er gwybodaeth. Ni chafwyd sylwadau.

10. **Cyllid –**

10.1 **Ffurflen Flynyddol 2016/17 -**

10.2 **Trafodion y gyfriflen banc ddiweddaraf –**

£370.00 Eurwyn Griffith(Cyflog a chostau Awst a Medi)
£185.00 Eurwyn Griffith (Cyflog a chostau Hydref)
Cyfrif Cadw .: llogau £0.21
Balans yn y Banc:
Cyfredol £6254.77
Cadw £2144.17

10.3 T**aliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod -**

| | | |
|---|---|---|
| E Griffith (Cyflog Clerc) | £160.00 | |
| √ (Costau/treuliau) | <u>£25.00</u> | £185.00 |
| Canolfan Cymdeithasol Llithfaen (Llogi) | | £600.00 |



Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347

Cyngor Cymuned Pistyll

Clerc / Clerk: Eurwyn Griffith
ccpistyll@btinternet.com 01286 650347